

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**08/11/2006**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau  
Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks
- 4 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**  
**Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration**

**Tlodi**  
**Poverty**

**Q12 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to combat poverty in the south Wales Valleys? OAQ0894(SJR)

**C12 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymoedd De Cymru? OAQ0894(SJR)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** We are committed to improving the lives of people across Wales with a range of Assembly Government policies and programmes aimed at combating poverty. My social justice annual report sets out how we are working to eradicate child poverty, reduce homelessness, tackle economic inactivity, raise skill levels and combat health inequalities.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr ydym wedi ymrwymo i wella bywydau pobl ar draws Cymru gydag amrywiaeth o bolisiau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad wedi eu hanelu at fynd i'r afael â thlodi. Mae fy adroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol yn nodi sut yr ydym yn gweithio tuag at ddileu tlodi plant, lleihau digartrefedd, mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, codi lefelau sgiliau a brwydro yn erbyn anghydraddoldebau iechyd.

**Darparu Cyfiawnder Cymdeithasol**  
**Delivering Social Justice**

**Q13 Nick Bourne:** Will the Minister update us on her policies for delivering social justice

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei

across Mid and West Wales? OAQ0908(SJR)

pholisïau ar gyfer darparu cyfiawnder cymdeithasol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0908(SJR)

**Edwina Hart:** My social justice annual report 2005 sets out how social, educational and economic barriers are being tackled across all parts of Wales, including in mid and west Wales. The full report can be accessed electronically on the Assembly Government's internet site and an accompanying leaflet has been widely distributed throughout Wales.

**Edwina Hart:** Mae fy adroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol am 2005 yn nodi sut yr eir i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, addysgol ac economaidd ar draws Cymru, gan gynnwys canolbarth a gorllewin Cymru. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn electronig ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ac mae taflen i gyd-fynd â'r adroddiad wedi ei dosbarthu'n helaeth ar draws Cymru.

### **Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref The Home Energy Efficiency Scheme**

**Q14 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on the home energy efficiency scheme in Wales? OAQ0924(SJR)

**C14 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yng Nghymru? OAQ0924(SJR)

**Edwina Hart:** The home energy efficiency scheme is the Welsh Assembly Government's main vehicle for tackling fuel poverty. It has assisted over 64,000 vulnerable households since 2000. Both in 2006-07 and 2007-08, an additional £5 million is available to assist pensioner households through HEES, bringing the total budget to £19.6 million in each year.

**Edwina Hart:** Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw prif arf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae wedi helpu dros 64,000 o aelwydydd agored i niwed ers 2000. Yn 2006-07 ac yn 2007-08 mae £5 miliwn ychwanegol ar gael i helpu aelwydydd pensynwyr drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £19.6 miliwn bob blwyddyn.

### **Tlodi Plant Child Poverty**

**Q15 Leighton Andrews:** Will the Minister provide an update on the Welsh Assembly Government's plans to eliminate child poverty in Wales? OAQ0905(SJR)

**C15 Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu tlodi plant yng Nghymru? OAQ0905(SJR)

**Edwina Hart:** A significant number of policies and programmes are in place across Assembly Government portfolios, tackling poverty throughout Wales. The child poverty implementation plan builds on these, supported by an ambitious set of milestones and targets, published on 23 October, to measure progress towards our goal of eradicating child poverty by 2020.

**Edwina Hart:** Mae nifer sylweddol o bolisïau a rhaglenni ar waith ar draws portffolios Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi drwy Gymru. Mae'r cynllun gweithredu ar dlodi plant yn adeiladu ar y rhain, wedi ei gefnogi gan set uchelgeisiol o gerrig milltir a thargedau a gyhoeddwyd ar 23 Hydref i fesur y cynnydd tuag at ein nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks**

## Swyddi Dur Steel Jobs

**Q10 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on the security of steel jobs in Port Talbot in light of the proposed acquisition of Corus by Tata? OAQ1093(EIN)

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** I refer to my statement of 24 October. This remains a market sensitive issue. Corus has invested heavily in its Port Talbot operation. There are significant challenges to Corus achieving its production targets. The proposed acquisition will reinforce those challenges. I will make a further statement when matters have reached conclusion.

**C10 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrwydd y swyddi dur ym Mhort Talbot, o ystyried bod Tata yn cynnig prynu Corus? OAQ1093(EIN)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Cyfeiriaf at fy natganiad ar 24 Hydref. Mae hwn yn parhau i fod yn fater sensitif o ran y farchnad. Mae Corus wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei waith ym Mhort Talbot. Mae heriau sylweddol i Corus gyrraedd ei dargedau cynhyrchu. Bydd y pryniant arfaethedig yn atgyfnerthu'r heriau hynny. Byddaf yn gwneud datganiad pellach pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ar y mater.

## Capasiti Ynni Adnewyddadwy Renewable Energy Capacity

**Q11 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's support for introducing renewable energy capacity to public buildings across Wales? OAQ1076(EIN)

**Andrew Davies:** The public sector in Wales is encouraged to adopt renewable energy and low carbon technologies and there are many good initiatives in evidence, particularly in the Welsh Health Estates. In addition, the UK low carbon building programme will make available £50 million to support public-sector microgeneration projects.

**C11 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at gyflwyno capasiti ynni adnewyddadwy i adeiladau cyhoeddus ledled Cymru? OAQ1076(EIN)

**Andrew Davies:** Caiff y sector cyhoeddus yng Nghymru ei annog i fabwysiadu technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel ac mae tystiolaeth o lawer o fentrau da, yn arbennig yn Ystadau Iechyd Cymru. Yn ychwanegol at hyn, bydd rhaglen adeiladu carbon isel y DU yn sicrhau bod £50 miliwn ar gael i gefnogi prosiectau microgynhyrchu'r sector cyhoeddus.

## Nifer y Swyddi Newydd a Grëwyd The Number of New Jobs Created

**Q12 Rosemary Butler:** Will the Minister make a statement on the number of new jobs that have been created in Newport in the last 12 months? OAQ1126(EIN)

**Andrew Davies:** Figures obtained from Newport Unlimited estimate that 1,750 jobs have been created in Newport in the last year, between October 2005 and September 2006. I recently opened the Wales and West Utilities building at Celtic Springs, which is a prime example of the quality investment currently

**C12 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddi newydd a grëwyd yng Nghasnewydd yn ystod y 12 mis diwethaf? OAQ1126(EIN)

**Andrew Davies:** Mae ffigurau a gafwyd gan Newport Unlimited yn amcangyfrif bod 1,750 o swyddi wedi eu creu yng Nghasnewydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhwng Hydref 2005 a Medi 2006. Agorais adeilad Wales and West Utilities yn Celtic Springs yn ddiweddar, sy'n enghraifft

being made in Newport.

wych o'r buddsoddiad o safon sy'n digwydd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd.

### **Cronfeydd Cydlyniant yr UE EU Cohesion Funds**

**Q13 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on the delivery of EU cohesion funds in the Vale of Clwyd constituency? OAQ1086(EIN)

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cronfeydd cydlyniant yr UE yn etholaeth Dyffryn Clwyd? OAQ1086(EIN)

**Andrew Davies:** The EU cohesion fund is a structural instrument that funds projects relating to transport infrastructure and the environment in the least prosperous states of the European Union. The United Kingdom is not eligible to receive support under the cohesion fund for the current programming period or for the 2007-13 programmes.

**Andrew Davies:** Offeryn strwythurol sy'n ariannu prosiectau sy'n ymwneud â seilwaith trafndiaeth a'r amgylchedd yng ngwladwriaethau lleiaf ffyniannus yr UE yw cronfa cydlyniant yr UE. Nid yw'r DU yn gymwys i dderbyn cymorth o dan y gronfa cydlyniant ar gyfer y cyfnod rhaglennu presennol nac ar gyfer rhaglenni 2007-13.

### **Rhwydweithiau Trafnidiaeth Transport Networks**

**Q14 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on transport networks in Wrexham? OAQ1101(EIN)

**C14 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rwydweithiau trafndiaeth yn Wrecsam? OAQ1101(EIN)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government is continuing to assist transport networks and services in Wrexham County Borough Council and, for 2006-07, a transport grant investment of £1.4 million was allocated to Wrexham for local transport schemes.

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i helpu rhwydweithiau a gwasanaethau trafndiaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac, yn 2006-07, dyrannwyd buddsoddiad grantiau trafndiaeth o £1.4 miliwn i Wrecsam ar gyfer cynlluniau trafndiaeth lleol.

### **Economi Cymru The Welsh Economy**

**Q15 Kirsty Williams:** What assessment has the Minister made of the benefit that a chief scientist would bring to the Welsh economy? OAQ1111(EIN)

**C15 Kirsty Williams:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r budd a ddeuai prif wyddonydd i economi Cymru? OAQ1111(EIN)

**Andrew Davies:** Matters relating to science are for the First Minister, who holds the role of Minister for science. I have made no such assessment.

**Andrew Davies:** Gan mai'r Prif Weinidog yw'r Gweinidog dros wyddoniaeth, ef ddylai ymdrin â materion yn ymwneud â gwyddoniaeth. Nid wyf wedi gwneud asesiad o'r fath.

### **Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business**

### **Llywodraeth Agored Open Government**

**Q14 Nick Bourne:** Will the Minister update us on her discussions with her Assembly colleagues regarding open government? OAQ0298(BM)

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran ei thrafodaethau gyda'i chydweithwyr yn y Cynulliad ynghylch llywodraeth agored? OAQ0298(BM)

**The Business Minister (Jane Hutt):** I regularly discuss with Cabinet colleagues our experience of dealing with requests for information, and use this as a basis for further strengthening our procedures and practice.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Byddaf yn trafod ein profiad o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth gyda fy nghydweithwyr Cabinet yn rheolaidd a byddaf yn defnyddio hyn fel sail i gryfhau ein gweithdrefnau a'n harferion ymhellach.

### **Plant Anabl Disabled Children**

**Q15 Mark Isherwood:** How is the Minister co-ordinating Welsh Assembly Government policies on service provision for disabled children? OAQ0301(BM)

**C15 Mark Isherwood:** Sut mae'r Gweinidog yn cydlynu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddarpariaeth gwasanaeth i blant anabl? OAQ0301(BM)

**Jane Hutt:** The Cabinet sub-committee on children and young people ensures that service provision for disabled children is integrated into all cross-cutting programmes and is co-ordinated. This includes Children First, the national service framework for children, young people and maternity services, the special educational needs code of practice, Flying Start and parenting action plan.

**Jane Hutt:** Mae is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth i blant anabl yn cael ei hintegreiddio i bob rhaglen drawsbynciol a'i bod yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys Rhoi Plant yn Gyntaf, y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth, y côd ymarfer anghenion addysgol arbennig, Dechrau'n Deg a'r cynllun gweithredu rhianta.